Mae hi'n ddiwedd blwyddyn academaidd arall a dyma anfon gair i holl deulu Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr, i ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi croesawu disgyblion a theuluoedd newydd i'n mysg eto eleni, a gobeithiaf yn fawr eu bod wedi profi croeso cynnes yn ein hysgol arbennig ni ac y byddant yn parhau i ffynnu yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Rydym yn ffodus bod ein plant wedi cael blwyddyn arall o brofiadau a chyfleoedd unigryw gyda gwibdeithiau, ymweliadau gan awduron, sêr y byd chwaraeon a siaradwyr gwadd o bob math. Ymysg yr uchafbwyntiau oedd gweld doniau amrywiol a brwdfrydedd nifer o'r disgyblion wrth gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Llongyfarchiadau mawr i'r unigolion a'r grwpiau a gyflawnodd y gamp o gystadlu ar lefel genedlaethol yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn Llanelwedd.

Gyda mwy a mwy o bwyslais yn y cwricwlwm ar gymhwysedd digidol, rhaid tynnu sylw at waith gwych y plant gyda chodio, y sgrin werdd a chreu cynnwys digidol soffistigedig dros ben dan arweiniad ein hathrawon ysbrydoledig. Yn wir, enillodd disgybl ym mlwyddyn 6 wobr genedlaethol yr Urdd am ei waith codio. I'r rhai ohonoch sydd wedi gweld y cyflwyniad arbennig gan ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 ar hanes yr ysgol a thwf ysgolion Cymraeg yn Abertawe, byddwch yn synnu dim bod y gwaith fideo hwnnw wedi ennill gwobr gwerth £400 gan Ymddiriedolaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig.

Fel y gwyddoch, mae'r ysgol yn wynebu heriau ariannol difrifol gyda thoriadau pellach ar draws y Sir ym myd addysg. Mae eich cefnogaeth chi fel rhieni yn fwy gwerthfawr fyth felly, ac mae'n wych bod digwyddiadau fel y Ffair Haf yn llwyddo i godi arian mawr i'r ysgol - dros £3,000 eleni! Mae'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn cyfrannu'n helaeth at fywyd yr ysgol ac yn ysgwyddo nifer o gostau sy'n help mawr i rieni. Y CRA sy'n talu am holl weithgareddau ymadawyr Blwyddyn 6 a drefnir gan yr ysgol, cludiant ar gyfer ymweliad blwyddyn 5 i Blas Tan y Bwlch, wyau Pasg, tripiau a pherfformiadau Nadolig i'r plant, ac anrhegion yn ystod y partïon Nadolig. Bob blwyddyn mae'r CRA yn talu am rywbeth penodol sydd ar restr siopa ddelfrydol yr ysgol ac eleni, fe roddwyd bron i £14,000 a dalodd am loceri newydd yn y Cyfnod Sylfaen a galluogi'r ysgol i fuddsoddi mewn nifer o i-pads newydd.

Mae'r ysgol yn llwyddo i gyflawni nifer o brosiectau diolch i ddoniau ac amser y rhieni ac unigolion eraill. O greu murluniau a chymorth gyda chynnal a chadw'r adeilad, i arddio a gwirfoddoli gyda chlybiau ar ôl ysgol. Rhaid diolch hefyd i'r staff sy'n cynnig y clybiau hyn yn gwbl wirfoddol ac am ddim i'n plant.

Mae'r pwyllgorau Lles, Ysgol Iach, Cyngor Cymreictod, Eco a'r Cyngor Ysgol wedi bod yn weithredol iawn yn ystod y flwyddyn. Rydym yn anelu at gyrraedd Gwobr Arian y Siarter Iaith flwyddyn nesaf ac at gyrraedd Cam 6 Ysgolion Iach. Mae'r holl brofiadau hyn ychwanegu at feithrin ein plant i fod yn unigolion gyda chydwybod gymdeithasol a rhoi'r hyder iddynt i leisio barn a rhannu syniadau eu cyfoedion.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r Corff Llywodraethu sy'n rhoi o'u hamser yn gwbl wirfoddol i'r ysgol gan rannu eu harbenigeddau amrywiol a chefnogi'r ysgol mewn cynifer o ffyrdd. Diolch hefyd i'n Pennaeth sy'n arwain yr ysgol gyda chadernid a sefydlogrwydd. Gallwn ddiolch hefyd ei bod hithau, a'r staff oll, yn barod i drafod unrhyw bryderon neu wrando ar syniadau newydd. Lles, hapusrwydd a diogelwch ein plant yw'r flaenoriaeth a chaiff hyn ei hadlewyrchu gan bob aelod o staff ar bob lefel yn yr ysgol.

Pob hwyl i ddisgyblion Blwyddyn 6 a mwynhewch weddill y dathlu!

Gan ddymuno haf hyfryd i chi,

Saran Thomas
Cadeirydd y Llywodraethwyr

As the end of another academic year approaches I write to thank all members of the Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr family for your continued support over the past year. We have welcomed new pupils and families to our midst this year and I very much hope that they've received a warm welcome from our special school and that they will continue to flourish during their time here.

We are lucky that our children have once again had a year of unique experiences and opportunities with various trips, visits from authors, sports stars and guests of all kinds. Amongst the highlights was the Urdd Eisteddfod and seeing so many of the pupils showcasing their different talents with such enthusiasm. Special congratulations to the individuals and groups who succeeded in reaching the national Eisteddfod in Builth Wells this year.

With more and more emphasis in the curriculum on digital competency, the pupils' work with coding, the green screen and creating extremely sophisticated digital content under the guidance of our inspirational teachers, hasn't gone unnoticed. In fact, a year 6 pupils won the national Urdd prize for his coding work. To those of you who've seen the fantastic video presentation by year 5 and 6 pupils on the school's history and the growth of Welsh medium education in Swansea, it will be of no surprise to you that they won a prize worth £400 from the Welsh Heritage Schools' Initiative Trust.

As you are aware, the school is facing serious financial challenges with further cuts made to education across the County. Your support as parents is therefore even more valuable and events such as the Summer Fayre, which raised over £3,000 this year, make such a difference. The Parents and Teachers Association contributes significantly to the life of the school and takes on many costs which directly benefit parents. The PTA pay for all Year 6 Leavers' activities which are organised by the school, transport for the Tan y Bwlch year 5 trip, Easter eggs, Christmas trips, performances and gifts for class parties. Each year the PTA pays for something specific on the school's wish list and this year, almost £14,000 secured new lockers for the Foundation Phase and allowed the school to invest in many new i-pads.

The school is able to fulfill many schemes thanks to the talents and time of parents and other individuals. From creating murals and building maintenance to gardening and volunteering with after school clubs. Thanks mainly to the staff that give their time voluntarily and run these clubs which are free of charge to our children.

The Welfare, Healthy Schools, Welsh, Eco and School Councils have all been very active over the year. We are aiming for the Silver Award of the Welsh Language Charter next year and Step 6 of Healthy Schools. These opportunities all contribute towards nurturing our children to become individuals with a social conscience and giving them the confidence to voice their opinion and speak on behalf of their peers.

Lastly, I'd like to thank the Governing Body who give their time voluntarily to the school, sharing their various expertise and supporting the school in so many ways. Thank you also to our Head who leads the school with such strength and stability. We are grateful that she, as well as all staff, are willing to discuss any concerns or listen to new ideas. Our children's wellbeing, happiness and safety are the priorities and this is reflected by members of staff on every level in Bryn-y-Mor.

Good luck to Year 6 pupils and enjoy the rest of the celebrations!

Wishing you a lovely summer,

Saran Thomas
Chair of Governors